COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

BWLETIN COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU CYMRU

5 – 20 CHWEFROR 2012

Mae'r bwletin hwn yn un o gyfres o ddiweddariadau rheolaidd i'ch hysbysu ynglŷn â datblygiadau i gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn 2012.

Yn y rhifyn hwn:

- **Bwrdd Trawsnewid Cymru - themâu allweddol sy'n codi;**
- **Ymweliad partneriaid - bu Stephen Rimmer, Cyfarwyddwr Cyffredinol Troseddau a Phlismona, yn cwrdd â phartneriaid yng Nghymru ar y 3 Chwefror;**
- **Llundain yn Mynd yn Gynnar;**
- **Digwyddiadau Ymgysylltu â Phartneriaid - Rhagor o wybodaeth ar ddigwyddiadau ledled Cymru a Lloegr;**
- **Beth all Partneriaethau fod yn ei Wneud - manylion datganiad i bartneriaid yn darparu gwybodaeth ar beth all partneriaethau fod yn wneud i baratoi ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;**
- **Deddfwriaeth eilaidd - diweddariad ar y rheoliadau perthnasol yn ymwneud â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn mynd trwy Ddau Dŷ'r Senedd.**
- **Ymgysylltu â'r Fenter Gymunedol a Chymdeithasol Wirfoddol (VCSE) trwy'r prosiect Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol.**

Bwrdd Prosiect Trawsnewid Cymru

Cyfarfu'r Bwrdd Prosiect Trawsnewid ar Ddydd Gwener 3 Chwefror. Cafodd aelodau'r Bwrdd ddiweddariad ar y cynnydd positif a wnaed yng Nghymru yn benodol:

- Mae Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant, wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt ddatblygu proses i enwebu cynghorwyr i Baneli'r Heddlu a Throseddau. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at gynghorau Lloegr yn gofyn iddynt gytuno ar y cyd ar aelodaeth Panel yr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lletya a threfniadau'r Panel ar ddiwedd Ionawr. Bydd llythyr tebyg yn cael ei anfon at gynghorau Cymru yn fuan, yn dilyn trafodaethau adeiladol rhwng y ddwy Lywodraeth.

- Cytunwyd ar gyllid ychwanegol (yn cynyddu o £38,300 i £53,300) ar gyfer y Paneli'r Heddlu a Throseddau. Yn ogystal, bydd aelodau'r panel (yn cynnwys aelodau cyfetholedig), yn derbyn hyd at £920 yr aelod i ariannu costau angenrheidiol. Mae hyn mewn cydnabyddiaeth o ehangiad posibl y rôl a maint paneli yn dilyn addasiad Tŷ'r Arglwyddi i'r Bil a deddfwriaeth eilaidd ar gwynion.

Mae trafodaethau yn parhau rhwng y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Awdurdodau Heddluoedd Cymru ar faterion penodol i Gymru yn cynnwys atebolrwydd yr Ysgrifennydd Cartref

dros Baneli'r Heddlu a Throseddau, costau cyfieithu i'r Gymraeg a threfniadau archwilio yn y dyfodol.

Bydd Bwrdd Prosiect Trawsnewid Cymru yn parhau i gwrdd yn rheolaidd tan Dachwedd 2012 pan fydd y bwrdd yn arolygu ei rôl ac yn ystyried trefniadau at y dyfodol.

Stephen Rimmer, (Cyfarwyddwr Cyffredinol, Troseddau a Phlismona yn y Swyddfa Gartref) yn cwrdd â phartneriaid yng Nghymru

Ymwelodd Stephen Rimmer (Cyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Gartref, Troseddau a Phlismona) â Chymru ar Ddydd Gwener 3 Chwefror i gwrdd ag amryw o randdeiliaid. Mewn rhaglen brysur fe fu'n:

- Annerch arweinyddion a phrif weithredwyr awdurdodau lleol yn y CLlLC ar oblygiadau
  newidiadau i lywodraethu plismona a pholisi ehangach y Swyddfa Gartref yn y cyd-destun datganoledig;
- cwrdd â phrif gwnstabliaid ac Awdurdodau'r Heddlu Cymru i adolygu cynnydd ar drawsnewid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phaneli'r Heddlu a Throseddau a thrafod unrhyw faterion oedd yn weddill; a
- chynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar weithio'n effeithiol ar draws y cyd-destunau datganoledig / heb ddatganoli.

Manteisiodd Stephen ar y cyfle hefyd i glywed gan Heddlu De Cymru ynglŷn â'u gwaith arbennig gyda phartneriaid lleol i reoli economi gyda'r nos yng Nghaerdydd a gweithrediad eu huned cefnogaeth ymchwilio ddeinamig oedd wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn cyfraddau canfod, lleihau athreuliad i lysoedd a mwy o weledded ymysg yr heddlu.

Roedd Stephen yn gwerthfawrogi'r croeso cynnes. Dywedodd "Roedd cryfder y cysylltiadau ac ehangder y gwaith partneriaeth yng Nghymru wedi creu argraff arnaf. Mae'r Swyddfa Gartref yn gwbl ymroddedig i ddialog parhaus gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ar amrediad o bolisïau'r Swyddfa Gartref trwy Dîm Troseddau Swyddfa Gartref yng Nghymru".

Llundain

Yn Llundain mae grymoedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn mynd i'r maer etholedig. Sefydlwyd Swyddfa Plismona a Throseddau'r Maer ar 16 Ionawr, a chafodd Awdurdod yr Heddlu Metropolitan ei ddiddymu'n swyddogol. Mae'r Heddlu Metropolitan wedi dod yn atebol yn uniongyrchol i'r maer, ac mae'r maer yn atebol yn uniongyrchol i bobl Llundain.

Mae rhoi llais i bobl Llundain dros blismona wedi bod yn newid poblogaidd yn y brifddinas, ac mae hybu cyfrifoldeb y maer yn gam pellach tuag at y cyfeiriad cywir. Mae'n rhoi mwy o ddweud i bobl Llundain ynglŷn â sut y plismonir eu strydoedd.

Yr unig wahaniaeth rhwng trefniant Llundain a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ledled Cymru a Lloegr yw y bydd Comisiynydd y Met (a'r Dirprwy Gomisiynydd) yn parhau i gael ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines, ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Cartref. Fodd bynnag, bydd y maer yn ymwneud â'r broses benodi.

Mae gan Ddinas Llundain system lywodraethu plismona unigryw. Mae'n gweithredu ar sail anwleidyddol trwy ei arglwydd Faer, Henaduriaid, ac aelodau o Lys y Cyngor Cyffredin.

Mae'r llywodraethu wedi ei deilwra i sefydliadau a thraddodiadau penodol Dinas Llundain, ac nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu newid hynny.

Gweler y wefan am ragor o fanylion: http://www.homeoffice.gov.uk/media-centre/news/policing-priorities

Digwyddiadau Ymgysylltu â Phartneriaid

Cynhaliwyd y Digwyddiadau Ymgysylltu â Phartneriaid cyntaf ar 24 a 25 Ionawr; yng Nghaerhirfryn a Crewe. Bydd yr 17 o ddigwyddiadau a gynhelir ledled Cymru a Lloegr rhwng Ionawr a Mawrth yn uno ystod eang o bartneriaid yn gweithio ar draws ardaloedd heddlu, gyda'r bwriad o gynorthwyo trafodaethau lleol a pharatoadau ar gyfer cyrhaeddiad y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Tachwedd.

Gwahoddwyd dros 2,300 o bartneriaid ledled ystod eang o sefydliadau partner i'r digwyddiadau, ac rydym yn disgwyl i dros 1,000 o bobl fynychu.

Mae'r digwyddiadau yn cynnwys tri sesiwn:

- Gweithdy craffu, yn canolbwyntio ar baneli'r heddlu a throseddau;
- Gweithdy Gweithio mewn Partneriaeth, yn delio â'r nifer o faterion sy'n berthnasol i bartneriaid yn gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau; a

- Sesiwn Arweinwyr, ar gyfer:

- Prif Gwnstabliaid
- Prif weithredwyr awdurdodau heddlu
- Cadeiryddion awdurdodau'r heddlu
- Prif weithredwyr awdurdodau lleol
- Arweinyddion cynghorau
- Meiri etholedig

Byddwn yn darparu adborth o'r digwyddiadau cynnar yn y bwletin nesaf.

Gweler y bwletin blaenorol ar gyfer lleoliadau digwyddiadau, a manylion pellach am y gwahoddedigion: http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/police-crime-comms-bulletin/

Beth All Partneriaethau fod yn ei Wneud

Bydd Comisiynwyr yn newydd-ddyfodiaid i dirwedd arweinyddiaeth leol cymhleth a bydd angen iddynt gydweithio.

Mae llywodraeth ganolog wedi sefydlu fframwaith hyblyg ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'u partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Mae yna ystod o weithredoedd y gallai arweinyddion lleol eu cymryd i sicrhau eu bod yn barod. Amlinellir rhai o'r rhain ymhellach yn natganiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer partneriaid (http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/what-partnersneed-to-know) ac mae'n cynnwys:

- Cychwyn trafodaethau cynnar ymysg partneriaid ynglŷn â'r newidiadau, ceisio eu barn a chytuno ar y ffordd orau i wneud iddo weithio;

- Gwerthuso eich trefniadau gweithio mewn partneriaeth a'r angen a'r cwmpas i symleiddio neu egluro;

- Ystyried blaenoriaethau partneriaeth presennol, a chynhwysiant a buddiannau posibl y comisiynydd;

- Trefnu sylfaen tystiolaeth a gwerth am arian eich rhaglenni presennol i gefnogi penderfyniadau buddsoddiad comisiynwyr;

- Deall sut y gallai dyfodiad y comisiynydd effeithio ar eich rhaglen bresennol a threfniadau cyllid;

- Trafod sut y gallech gefnogi comisiynu ledled partneriaethau ac asiantaethau, neu ledled ardal yr heddlu;

- Ystyried sut y gallwch helpu comisiynwyr i ddeall anghenion pobl leol, yn defnyddio mecanweithiau ymgysylltu presennol.

Comisiynu

Yn ogystal â'u rôl plismona craidd, bydd gan gomisiynwyr gylch gorchwyl i leihau trosedd, a bydd ganddynt rymoedd comisiynu a chyllid i'w galluogi i wneud hyn. Bydd ganddynt rymoedd i ddyfarnu grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff maent yn ystyried fydd yn cefnogi eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol.

O flaen llaw i gyrhaeddiad comisiynwyr (ac, yn bwysicach, o flaen llaw i ymgeiswyr yn datgan eu hunain dros y misoedd i ddod), bydd arweinyddion gwasanaeth eisiau sicrhau bod y ddadl fusnes dros raglenni presennol, neu gynigion ar gyfer ymagweddau newydd, yn gadarn. Gallai hyn gynnwys ystyried:

- Y sylfaen o dystiolaeth ar gyfer rhaglenni;
- Gwerth am arian;
- Y berthynas rhwng blaenoriaethau partneriaeth presennol, a buddiannau posibl y comisiynydd.

Ni fwriedir i'r ystyriaethau hyn fod yn gynhwysfawr, a byddant yn berthnasol i'r sectorau statudol a gwirfoddol. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â chomisiynu yn y Datganiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i Bartneriaid.

Deddfwriaeth Eilaidd

Er mwyn i Lundain allu mynd yn gynnar, cyflwynwyd yr offerynnau statudol canlynol gerbron y Senedd ar 15 Medi (pan dderbyniodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gydsyniad Brenhinol) ar y 23 Rhagfyr:

- Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011 – mae hyn yn cyhoeddi Protocol yr Ysgrifennydd Cartref gan sefydlu ei barnauar sut ddylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, prif swyddogion yr heddlu a phaneli'r heddlu a throseddau arfer eu swyddogaethau parthed ei gilydd, gan gyfeirio'n benodol at annibyniaeth gweithredolyr heddlu;

- Rheoliadau'r Heddlu (addasiad) 2011 – mae'r rhain yn addasu rheoliadau presennol yr heddlu i ychwanegu mesurau diogelwch gweithdrefnol parthed

ataliad a symudiad uwch swyddogion yr heddlu, ac i wneud rhai newidiadau technegol pellach yn deillio o'r Ddeddf;

- Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) (Addasiad: Heddlu Metropolitan) 2011 – mae'r rhain yn gwneud newidiadau cyfyngedig i'r rheoliadau presennol yn delio gyda thriniaeth yr heddlu o gwynion, i adlewyrchu amnewid yr Awdurdod Heddlu Metropolitan gyda'r Swyddfa Plismona a Throseddau'r Maer;

- Rheoliadau'r Heddlu (Perfformiad ac Ymddygiad) (Addasiad: Heddlu Metropolitan) 2011;

- Rheolau Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu (Addasiad: Heddlu Metropolitan) 2011;

- Y Gorchymyn Cyrff Etholedig Plismona Lleol (Gwybodaeth Ddynodedig) 2011;

- Y Rheoliadau Cyrff Plismona Lleol (Addasiadau Canlyniadol) 2011 – mae'r rhain yn addasu amrywiol reoliadau presennol a wnaed i adlewyrchu amnewidiad awdurdodau heddlu gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;

- Y Rheoliadau Pensiynau Heddlu (Addasiad) 2011.

Yn gynnar yn 2012, bydd deddfwriaeth eilaidd pellach yn cael ei gyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau yn sefydlu:

- Y broses ar gyfer enwebu a phenodi aelodau awdurdod lleol paneli'r heddlu a throseddau;

- Y broses i'r Ysgrifennydd Cartref sefydlu paneli'r heddlu a throseddau ble mae awdurdodau lleol wedi methu enwebu neu benodi aelodau;

- Rheoliadau yn sefydlu'r broses ar gyfer gosod praeseptau os ceir pleidlais atal gan banel yr heddlu a throseddau;

- Rheoliadau yn sefydlu'r broses ar gyfer penodi prif gwnstabl os ceir pleidlais atal gan banel yr heddlu a throseddau;

- Gorchymyn yn sefydlu'r rheolau ymddygiad ar gyfer ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;

- Rheoliadau a gorchmynion yn delio â swyddogaethau, costau ac ati swyddogion canlyniadau yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau;

- Gorchymyn yn eithrio ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau rhag darpariaethau penodol Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974;

- Gorchymyn yn penodi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau fel gweision y Goron i ddibenion y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

Ymgysylltu â'r Fenter Gymunedol a Chymdeithasol Wirfoddol (VCSE) trwy'r prosiect Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol

Cynhaliodd prosiect a ariennir gan y Swyddfa Gartref Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol, a fydd yn cefnogi sefydliadau VCSE rheng flaen wrth baratoi ar gyfer dyfodiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, ei ddigwyddiad lansio ar 13 Rhagfyr. Bu'r Swyddfa Gartref a thimau Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol hefyd yn rhedeg gweithdy ar y cyd gyda phresenoldeb da ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng nghynhadledd genedlaethol Clinks ar 26 Ionawr. Roedd y ddau ddigwyddiad hyn yn gyfle i bartneriaid VCSE ystyried sut y gallent baratoi i ddylanwadu ar flaenoriaethau diogelwch cymunedol lleol y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac i gael mynediad at gyllid, cyflawniad gwasanaeth a chyfleoedd partneriaeth.

Mae Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol bellach yn y broses o nodi arweiniad Rhwydwaith Leol VCSE ym mhob ardal heddlu. I hwyluso'r broses hon, mae Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyfarwyddo rhanbarthol rhwng Chwefror ac Ebrill. Er bod y digwyddiadau yn bennaf ar gyfer y VCSE ac yn cael eu hyrwyddo o fewn eu rhwydweithiau, pe hoffai eraill gael rhagor o fanylion amdanynt neu'r prosiect dylent gysylltu â Jessica Mullen, y Cydlynydd Prosiect Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol yn Clinks Jessica. Mullen@clinks.org Mae'r digwyddiadau hyn yn dilyn Digwyddiadau Ymgysylltu â Phartneriaid diweddar y Swyddfa Gartref y gwahoddwyd cynrychiolwyr VCSE i'w mynychu fel un o'r partneriaid allweddol i baratoi ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn lleol.

Cyswllt: Sara Featherstone, Uned Diogelwch Cymunedol

sara.featherstone(a)homeoffice.gsi.gov.uk

Llinell Amser Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau

Mae llinell amser yn rhoi manylion rhai o'r dyddiadau a digwyddiadau allweddol yn ystod cyflwyniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau hyd at Fawrth 2013 nawr ar gael ar wefan y Comisiynwyr:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/pcc-timeline

Gwybodaeth a chyfathrebu

Rydym yn cydnabod bod sefydlu rhaglen gyfathrebu gydlynol a chyflawn yn darparu cefnogaeth bwysig i bartneriaid wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Dechreuodd ein cyfathrebu yn ôl ym mis Tachwedd gyda chyhoeddiad 'un flwyddyn i fynd'. Ar y pryd fe lansiwyd adran benodol ar wefan y Swyddfa Gartref i'r cyhoedd a'r rhai oedd â diddordeb mewn dysgu mwy am rôl y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Yma fe ddewch o hyd i'r holl ddogfennau a gwybodaeth allweddol arall sydd ar gael hyd yn hyn. Bydd yr ardal yn datblygu gydag amser.
http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crimecommissioners

Mae llyfryn gwybodaeth hefyd ar gael ar gyfer ymgeiswyr posibl:
http://www.homeoffice.gov.uk/publications/police/pcc/got-what-it-takes Mae diffyg cynrychiolaeth gan fenywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn swyddi etholedig. Mae hyn yn gyfle i bobl o bob lliw a llun sefyll a gwneud gwahaniaeth.

Defnyddio'r Bwletin Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau penodol i Gymru hwn

Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid allweddol i gyflawni'r diwygiadau i blismona yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys sefydlu bwrdd rhaglen penodol i Gymru, sy'n rheoli materion penodol i Gymru wrth iddynt godi yn ystod

y trawsnewid i'r trefniadau newydd. Mae'r bwletin Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau penodol i Gymru hwn yn ohebiaeth reolaidd sy'n cynnwys deunydd i adlewyrchu cyd-destun Cymru yn llawn. Er bod cryn dipyn o'r rhaglen ddiwygio'r un mor berthnasol i Loegr mae yna rai pwyntiau allweddol o wahaniaeth (megis y trefniadau ar gyfer sefydlu Paneli'r Heddlu a Throseddau). Hoffem glywed gennych os oes yna faterion penodol i Gymru yr hoffech weld yn cael sylw.

Rydym yn anfon bwletinau rheolaidd trwy gydolcyflwyniad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i'ch hysbysu. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych. Cysylltwch â ni yn PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau a chwestiynau trwy gydol y broses ddatblygu a gweithredu.